

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod:04.03.14 Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol :Y Cynghorwyr ; Dylan Jones, Arwel Nicholas, Danny Davies, Elfed Davies, Wyn Thomas, Pamela Jones, Malcolm Howells, Carolyn Smethurst
Ymddiheuriadau : Cyngorydd Sir, Irfon Jones.

Rhif Agenda	Nodiadau/ Pendefyniadau	I'w weithredu gan
Cofnodion	Cafwyd yn gywir. Cynnigiwyd gan AN, eiliwyd ED	
Materion yn codi	<p>Carthion. Clerc yn adrodd siarad gyda John Manley, Swyddog Iechyd y Cyhoedd. Clerc I gysylltu gyda John Manley eto am ddiweddariad ar y trafodaethau rhwng Cyngor Sir Gar a Dwr Cymru.</p> <p>CS wedi bod mewn cysylltiad gyda Richard Davies, Swyddog CCC sydd a chyfrifoldeb cynnal rhwydwaith y carthion. Yntau yn dweud bod dau bwmp newydd wedi eu gosod yn y pibau er mwyn cyflymu rhediad y carthion. Darganfuwyd pibell wedi torri tu cefn I Gwili Terrace. Dwr Cymru wedi cyflogi Ymgynghorydd I asesu'r rhwydwaith yn gyfangwbl. Richard Davies yn crynhoi gwybodaeth am yr hyn oll sydd yn cael eu wneud ac yn barod I ymweld â'r Cyngor I adrodd am yr hyn sydd yn digwydd.</p> <p>Halen a Graean: Clerc I gysylltu gyda Priffyrdd I ofyn am flwch ychwanegol I ben heol Cwmwernen. Blwch Maenllwyd ond yn cynnwys digon o halen i'w daenu ar y rhiw. Yr arwyddbost wrth ymyl Bont y Rheilffordd; angen adfer mwy parhaol.</p> <p>John McEvoy: wedi cyfarfod gyda WT, MH a CS ar gornel Ty Nant ac wedi trafod newid cyflymdra trafniadaeth heibio'r Ysgol a'r Cae Chwarae a'r llwyn sydd yn rhwystro'r olygfa. Mr McEvoy yn rhoi gwybod I'r Swyddog Gorfodi am y llwyn ac mi fydd yntau yn rhoi rhybydd fydd yn gorfodi torri'r berth cyn pen diwedd 14 diwrnod.</p> <p>Western Power: gwahoddiad I bawb sydd a diddordeb I fynychu Cyfarfodydd Ymgynghori WT; bellach mae son am gladdu y gwifre mewn manau. Gofid bod grym yr ynni yn y gwifrau fyddai yn dod lawr heibio Pont ar Sais yn cynyddu wrth I'r trydan o'r nifer o ffynnonellau gael eu ychwanegu.</p> <p>AN; ydi'r Gymuned mofyn y gwifrau? WT; y penderfyniad oedd eu gwrthod, nid yw'r arian yn holl bwysig.</p>	
Gohebiaeth	Cais oddi wrth Cyngor Cymuned Llanfihangel ar Arth ar I Gyngor Cymuned Llanpumsaint gefnogi ei cwyn yn erbyn WP. Clerc I ysgrifennu at WP yn eu hatgoffa o'r penderfyniadau gwreiddiol, sef claddu'r gwifrau ac os defnyddio polion,	

	defnyddio polion pren. Un Llais Cymru; aelodaeth blwyddyn wedi darfod. Cynnigiwyd ail ymaelodu	
Cynllunio	Maes Gwersylla Clyttie Cochion wedi ei dynnu nôl; Priffyrdd am mynedfa arall l'r safle	
Materion Ariannol	Talu'r Cyfieithydd Cynnigiwyd WT, eiliwyd ED	
UFA	MH ; Lampau gerllaw Penbontbren. Alan Edwards sydd yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y goleuadau yn dewis ymdeol. Efalli bydd trwsio trafferthion yn anoddach yn y dyfodol Aelod o'r gymuned am weld Cofnodion Cyfarfodydd ar y wé yn fwy buan. Oherwydd rhaid cadarnhau Cofnodion, bydd mis o oedi cyn eu cyhoeddu. Achwyniadau am Level Crossing Bronwydd. Clerc I gysylltu gyda Priffyrdd PJ ; Trigolion Nant yr Ynys yn gofyn am arwydd ar ben yr heol. Clerc I gysylltu gyda'r Cyngor Sîr. CS ; Yn ystod y sgwrs gyda John McEvoy, dywedwyd bod rhestr hir o gymunedau yn aros am arwyddion atal cyflymdra. Fe fydd y Clwb Cerdded yn codi sbwriel ar yr 22ain o'r mis WT ; Dim ED ; Tll cas ar yr heol wrth ymyl Fferm y Bryn DD ; Dim AN ; Cyflwr Rhiw Graig yn gyfangwbl yn dirywio, ac hefyd yr heol hebio Helfa Hall. DJ ; yn ategu sylwadau AN am gyflwr Rhiw Graig	
Cyfarfod yn gorffen	8.50	

Cafwyd yn gywir :	Cafwyd yn gywir :
(Cadeirydd)	(Ysagriennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: